Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 299 (Cymru) - 14 Ebrill 2021

## Etholiadau mis Mai 2021: EUB Dug Caeredin

Fel y nodwyd yn ein he-bost at Swyddogion Canlyniadau a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol ar 11 Ebrill ynghylch y newyddion bod EUB Dug Caeredin wedi trengi a threfniadau'r angladd, gallwn gadarnhau na fydd newidiadau i'r amserlenni etholiadol ar gyfer y pleidleisiau sydd i'w cynnal ar 6 Mai 2021. Dylech felly barhau â'ch gwaith i gyflawni'r etholiadau fel y cynlluniwyd.

Fel pob amser, os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, cysylltwch ag gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk a byddwn yn hapus i helpu.

## Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad ynghylch adnoddau ymwybyddiaeth gyhoeddus

Gyda llai nag wythnos i fynd tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio, sef 19 Ebrill, roeddem am eich atgoffa o'r adnoddau digidol a phrint y gallwch eu lawrlwytho a'u defnyddio i helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cofrestru, a'r gwahanol ffyrdd i bleidleisio.

Rydym hefyd wedi creu dogfen Cwestiynau Cyffredin gyda gwybodaeth bwysig i bleidleiswyr am y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio a'r diwrnod pleidleisio ei hun. Mae'n cynnwys atebion i gwestiynau cyffredin, megis sut mae dod o hyd i'w gorsaf bleidleisio, beth dylent ei gymryd gyda nhw, a beth i'w wneud os oes symptomau'r coronafeirws arnynt cyn y diwrnod pleidleisio. Gellir defnyddio'r ddogfen hon ar eich gwefannau, yn ogystal ag wrth gyfathrebu gyda'r cyfryngau. Argymhellwn eich bod yn defnyddio'r adnodd hwn yn yr wythnos olaf cyn yr etholiadau.

**Canllawiau poced i bleidleiswyr**
Mewn partneriaeth ag RNIB Cymru, elusen sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi colli eu golwg, rydym wedi creu canllawiau poced ar gyfer pleidleisio yn etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Maent wedi eu dylunio i helpu i sicrhau bod y rheiny sydd wedi colli eu golwg yn ymwybodol o ba etholiadau sy'n

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2021: EUB Dug Caeredin**

Cadarnhau nad oes unrhyw newidiadau i'r amserlenni etholiadol.

**Etholiadau mis Mai 2021: diweddariad ynghylch adnoddau ymwybyddiaeth gyhoeddus**

Gwybodaeth am ystod o adnoddau ymwybyddiaeth gyhoeddus, a dolenni atynt.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol**

cael eu cynnal, sut mae cymryd rhan, a pha gefnogaeth y gallant ofyn amdani mewn gorsafoedd pleidleisio.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2021

**a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**